**Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales**
**Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee**
**Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans**

**WESP 20**
**Ymateb gan : Mudiad Meithrin**
**Response from : Mudiad Meithrin**

| |
|---|
| **Cwestiwn 1** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a'r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru? |
| Cytuno gyda'r isod.<br>1. Yn ein barn, nid yw'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) lleol yn cyfrannu'n *ddigonol* at y deilliannau a'r targedau a nodir yn y Cynllun Strategol cenedlaethol.<br>2. Croesawn fodolaeth y Cynllun Strategol cenedlaethol a'r CSCAiau lleol fel erfyn i fonitro, cynllunio a datblygu addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel leol a cenedlaethol ond teimlwn mai prin fu'r cynnydd ers i'r Strategaeth ddod i rym.<br>3. Un esiampl yn unig o hyn yw'r diffyg llefydd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg mewn nifer o Awdurdodau Lleol yn bresennol a'r ffaith yr eir i apêl. Pe byddai'r CSCAiau yn wirioneddol effeithiol, ni fyddai unrhyw blentyn "heb le" yn eu hysgol cyfrwng Cymraeg dewisol. |
| Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn? |
| 1. Dylid cryfhau polisi iaith pob awdurdod lleol gan sicrhau, law yn llaw, gyda'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP), brosesau ystyrlon a chynhwysfawr er mwyn mesur ac, yn bwysicach, er mwyn ateb y galw am addysg Gymraeg yn lleol a darparu gwybodaeth gynhwysfawr ac effeithiol i rieni. Yn benodol, dylid edrych at gyfundrefnau addysg Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn gweld arfer gorau ym maes iaith ac |

addysg.

2. Yn ein profiad, mae bodolaeth cylch meithrin (a chylch Ti a Fi fel y cam cychwynnol tuag at addysg a gofal cyfrwng Cymraeg) yn brawf neu dystiolaeth o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn cymuned.
3. Ar frys, dylid edrych ar gyd-destun polisi addysgeg y Cyfnod Sylfaen (a chanfyddiadau ymchwil diweddar WISERD) er mwyn mabwysiadu trefn ble caiff pob plentyn yn ystod oedran y Cyfnod Sylfaen ddilyn y cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg gan felly hefyd fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion yr Athro Donaldson (o safbwynt Canolfannau Rhagori).
4. Byddai mabwysiadu trefn bell-gyrhaeddol yn gofyn am fuddsoddiad dwys yn y gweithlu er mwyn sicrhau corff o staff cymwys a phroffesiynol sy'n gallu gwireddu amcanion y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Dylid sicrhau ystyriaeth lawn i'r anghenion hyfforddiant a chefnogaeth sydd yn hanfodol i weithlu'r blynyddoedd cynnar sy'n cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen i blant ifainc er mwyn iddynt fedru gwireddu amcanion y cwricwlwm mewn lleoliadau nas gynhelir.
6. Dylai fforymau trafod CSCAiau gyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith a chynnydd o fewn yr awdurdodau lleol gan sicrhau fod partneriaid amlwg megis Mudiad Meithrin yn derbyn gwahoddiad i fynychu.

**Cwestiwn 2** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)?

1. Yn anffodus, na. Pe bai hyn yn wir, ni fyddai unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth nac unrhyw blentyn "heb le" neu'n gorfod teithio tu hwnt i bellteroedd derbyniol ar gludiant cyhoeddus er mwyn cael manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg.
2. Nid yw CSCAiau wedi galluogi hyblygrwydd ac ystwythder wrth gynllunio ar gyfer cynnydd ac ni ellir dweud eu bod felly'n "darparu ar gyfer unrhyw gynnydd". Mae sawl esiampl ddaearyddol e.e. diffyg ysgol

gynradd Gymraeg yn y Trallwng, diffyg ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhowys ayyb.

3. Mae Mudiad Meithrin yn casglu a darparu data cynhwysfawr at bwrpas y CSCAiau er mwyn cynorthwyo'r ALL i gynllunio yn bwrpasol ac ystyrlon wrth adnabod patrymau dilyniant o CM i addysg Gymraeg ac felly mae'nn siomedig nad yw hynny'n digwydd.

Os ydych o'r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn?

1. Dylid cryfhau polisi iaith pob awdurdod lleol gan sicrhau, law yn llaw, gyda'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP), brosesau ystyrlon a chynhwysfawr er mwyn mesur ac, yn bwysicach, er mwyn ateb y galw am addysg Gymraeg yn lleol a darparu gwybodaeth gynhwysfawr ac ystyrlon i rieni. Yn benodol, dylid edrych at gyfundrefnau addysg Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn gweld arfer gorau ym maes iaith ac addysg.
2. Yn ein profiad, mae bodolaeth cylch meithrin (a chylch Ti a Fi fel y cam cychwynnol tuag at addysg a gofal cyfrwng Cymraeg) yn brawf neu dystiolaeth o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn cymuned.
3. Ar frys, dylid edrych ar gyd-destun polisi addysgeg y Cyfnod Sylfaen (a chanfyddiadau ymchwil diweddar WISERD) er mwyn mabwysiadu trefn ble caiff pob plentyn yn ystod oedran y Cyfnod Sylfaen ddilyn y cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg gan felly hefyd fynd i'r afael â chanfyddiadau ac argymhellion yr Athro Donaldson (o safbwynt Canolfannau Rhagori).
4. Byddai mabwysiadu trefn bell-gyrhaeddol yn gofyn am fuddsoddiad dwys yn y gweithlu er mwyn sicrhau corff o staff cymwys a phroffesiynol sy'n gallu gwireddu amcanion y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg. O ystyried arbenigedd Mudiad Meithrin yn y maes, dylid manteisio ar hynny er mwyn hyfforddi mwy o weithwyr sy'n gallu cyflawni'r weledigaeth.
5. Dylid sicrhau ystyriaeth lawn i'r anghenion hyfforddiant a chefnogaeth sydd yn hanfodol i weithlu'r blynyddoedd cynnar (sydd hefyd yn

ddarparwyr addysg 3 oed) er mwyn iddynt fedru gwireddu amcanion y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas gynhelir.

6. Dylai fforymau trafod CSCAiau gyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith a chynnydd o fewn yr awdurdodau lleol.

**Cwestiwn 3** – Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)?

Mae'r trefniadau'n gynhwysfawr. Nid diffyg monitro nac adolygu na chyflwyno data, adroddiadau ayyb yw'r broblem.  Y broblem yw diffyg gweithredu pell-gyrhaeddol a phendant ar sail y galw amlwg a chynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg mewn nifer o ardaloedd gan Awdurdodau Lleol

Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?

Wele uchod.

**Cwestiwn 4** – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill*?
(*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi – Iaith fyw:iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio)?

1. Nac ydynt. Cyfeirir at sawl maes perthnasol uchod. Mae polisi cludiant yn un dylanwad amlwg (gyda chynsail arwyddocaol yn achos ysgol ffydd yr Esgob Vaughan, Abertawe yn ddiweddar).
2. Mae *Dechrau'n Deg* yn gynllun clodwiw a rhagorol o safbwynt y blynyddoedd cynnar ond nid yw'r ddarpariaeth yn ddigonol o'i gymharu gyda niferoedd y plant sydd mewn addysg Gymraeg erbyn iddynt gyrraedd blwyddyn 2 yn yr ysgol gynradd. Awgryma hyn felly fod y broblem yn un deublyg ac y byddai cynyddu niferoedd y llefydd a'r darparwyr Dechrau'n Deg -cyfrwng Cymraeg –hefyd yn gyfrwng i gyfrannu'n gadarnhaol at niferoedd mewn addysg Gymraeg. Mae'n

bwysig sefydlu'r norm ar ddechrau taith "addysgiadol" y plentyn pan yn 2 neu'n 3 mlwydd oed.

3. Nid yw polisi iaith addysg yn gyffredinol yn cyd-fynd efo amcanion a thargedau Llywodraeth Cymru yn *Iaith Fyw: Iaith Byw* i gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg. Yn ddi-os, addysg Gymraeg h.y. y broses o drosglwyddo'r Gymraeg i blentyn o gartref ble na siaredir y Gymraeg, yw'r allwedd i greu siaradwyr Cymraeg ac i gyrraedd targedau uchelgeisiol Llywodraeth Cymru yn y cyd-destun hwn. Er mwyn cyrraedd targedau o'r fath, bydd angen gweld datblygiadau pell-gyrhaeddol, radical yn hytrach na'r chynnydd araf a thameidiog a welir yn bresennol. Un cam i'r cyfeiriad iawn fyddai i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg i bob plentyn. Er mwyn gwireddu hyn, byddai rhaid wrth gynllunio a buddsoddi dwys yn y gweithlu.
4. O safbwynt gofal plant a'r ADGP, awgrymwn fod y modd y cesglir gwybodaeth am ddyheadau rhieni o safbwynt sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes gofal plant yn ddiffygiol. Heb ddiffinio deilliannau ieithyddol ar gyfer 'cyfrwng Cymraeg' a 'dwyieithog', nid oes modd sicrhau nad ydy'r sawl sydd yn ymateb i'r asesiad wedi drysu dymuniad i'r plentyn i fod yn ddwyieithog (a medru defnyddio'r ddwy iaith fel canlyniad naturiol gofal cyfrwng Cymraeg) gyda defnydd y ddwy iaith yn y lleoliad gofal (fyddai'n mynd yn groes i egwyddorion y dull trochi). Yng nghyswllt yr ADGP, mae'n hollbwysig sicrhau cysondeb a chroesgyfeirio ar draws prosesau cynllunio perthnasol (megis y CSCA) a bod yr un drefn yn cael ei ddefnyddio ym mhob ALL. Dylid sicrhau fod y broses asesu'n cael ei harfarnu gan arbenigwyr polisi ac iaith allanol h.y. er mwyn sicrhau fod y prosesau asesu mor gynhwysfawr ag sydd bosibl. Dylid hefyd sicrhau fod y broses asesu'n canolbwyntio ar ddeilliannau pendant o safbwynt egwyddorion dogfennau strategol megis *'Iaith Byw: Iaith Fyw'* sy'n gosod y Gymraeg fel maes polisi llorweddol ar draws pob maes polisi arall (ac nid fel maes polisi i'w gosod mewn bocs ar wahân). Yn hyn o beth, pryderwn fod amwysedd am ddiffiniadau yn ymwneud ag addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog yn gallu arwain rhai, yn eu hanwybodaeth, at feddwl fod

| |
|---|
| gofal ac addysg *ddwyieithog* yn creu siaradwyr Cymraeg (ble mae'n wybyddus nad yw hynny'n wir).<br>5. O safbwynt addysg ôl-14, teimlwn nad oes yna ddigon o ystyriaeth yn cael ei roi i effaith polisïau addysg sydd yn canoli / ffederaleiddio'r ddarpariaeth ar gyfrwng iaith yr addysg sydd yn cael ei gynnig i'r disgyblion. |
| Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys? |
| Wele uchod |
| **Cwestiwn 5** – Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel? |
| 1. Mae hyn yn amrywio o ardal i ardal yn ddibynnol ar statws addysg Gymraeg o fewn yr awdurdod lleol ac ar y polisi iaith. Nid yw'r CSCA yn sicrhau canlyniadau teg i blant cynradd mewn ardal os nad oes addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd ar gael. Nid yw'r CSCA yn sicrhau canlyniadau teg i blant cynradd os nad oes ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gael yn lleol (ond fod y plentyn, er enghraifft, wedi mynychu cylch Ti a Fi neu gylch meithrin) neu bod yr ysgol yn llawn<br>**2.** Er mai cynllun gofal plant yw Dechrau'n Deg, mae'r diffyg yn y cyfraddau rhwng niferoedd y plant mewn cynlluniau cyfrwng Cymraeg (h.y. Dechrau'n Deg nid *Flying Start*) a niferoedd y plant mewn addysg Gymraeg ym mlwyddyn 2 yn yr ysgol gynradd, yn awgrymu ôl-gynllunio annigonol a all effeithio'n niweidiol ar nifer y plant sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg h.y. fe allasai'r niferoedd fod yn uwch pe byddai mwy o lefydd / darpariaethau Dechrau'n Deg ar gael. Gan mai cynllun wedi ei anelu at blant o gartrefi incwm isel o fewn ardaloedd côd post penodol yw Dechrau'n Deg, mae hyn yn awgrymu diffyg dealltwriaeth rhwng un cynllun allweddol i drechu tlodi (a chynllun holl-bwysig) a'r CSCA. |

| Os ydych o’r farn nad yw canlyniadau’r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn? |
|---|

Fel yr uchod:

1. Dylid cryfhau polisi iaith pob awdurdod lleol gan sicrhau, law yn llaw, gyda’r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant (ADGP), brosesau ystyrlon a chynhwysfawr er mwyn mesur ac, yn bwysicach, er mwyn ateb y galw am addysg Gymraeg yn lleol a bod hynny’n cael ei wneud mewn modd cyson ar draws Cymru. Yn benodol, dylid edrych at gyfundrefnau addysg Gwynedd ac Ynys Môn er mwyn gweld arfer gorau ym maes iaith ac addysg.
2. Yn ein profiad, mae bodolaeth cylch meithrin (a chylch Ti a Fi fel y cam cychwynnol tuag at addysg a gofal cyfrwng Cymraeg) yn brawf neu dystiolaeth o’r galw am addysg cyfrwng Cymraeg mewn cymuned.
3. Ar frys, dylid edrych ar gyd-destun polisi addysgeg y Cyfnod Sylfaen (a chanfyddiadau ymchwil diweddar WISERD) er mwyn mabwysiadu trefn ble caiff pob plentyn yn ystod oedran y Cyfnod Sylfaen ddilyn y cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg gan felly hefyd fynd i’r afael â chanfyddiadau ac argymhellion yr Athro Donaldson (o safbwynt Canolfannau Rhagori).
4. Byddai mabwysiadu trefn bell-gyrhaeddol yn gofyn am fuddsoddiad dwys yn y gweithlu er mwyn sicrhau corff o staff cymwys a phroffesiynol sy’n gallu gwireddu amcanion y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Dylai fforymau trafod CSCAiau gyfarfod yn rheolaidd i drafod gwaith a chynnydd o fewn yr awdurdodau lleol.
6. Dylid sicrhau cyd-weithio chlir a phendant gyda nifer o asiantaethau eraill (yn y sector cyhoeddus ac yn y sector gwirfoddol) i sicrhau digon o weithlu i gefnogi disgyblion sydd ag ADY drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws bob cam o’u taith addysg.

| **Cwestiwn 6** – Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad |
|---|

| |
|---|
| hwnnw? |
| Dechrau cynllunio at gyfundrefn ble caiff y Cyfnod Sylfaen ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. |
| **Cwestiwn 7** – A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol? |
| 1. Ystyriwn fod nifer o agweddau ar y broses gyfredol o Asesu Digonolrwydd Gofal Plant sy'n berthnasol i'r maes am nad ellir yn hawdd ysgaru gofal ac addysg yn yr ystod oedran blynyddoedd cynnar.<br><br>2. Yng nghyd-destun yr ADGP, cyfeirir at addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg ddwyieithog heb unrhyw ymdrech i ddiffinio'r deilliannau ieithyddol wrth ddilyn y naill drywydd neu'r llall. Heb nodi diffiniadau clir o 'cyfrwng Cymraeg' a 'Dwyieithog', y mae hi'n amhosib sicrhau cysondeb yn y ffordd y mae'r rhieni yn ymateb i gwestiynau sy'n ymwneud â chyfrwng iaith y gofal ac addysg maent yn ei eisiau. Yn yr un modd, awgrymwn nad ydi hi'n bosib blaengynllunio i sicrhau nifer digonol o lefydd gofal ac addysg cyfrwng Cymraeg heb godi ymwybyddiaeth rhieni o ddeilliannau ieithyddol tebygol eu plant, a heb hyrwyddo'r diffiniadau safonol sydd wedi'u cynnwys yn y Canllawiau i Awdurdodau Lleol.<br><br>3. Credwn fod angen rhoi ystyriaeth lawn i dargedau lleol a chenedlaethol y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg wrth flaen gynllunio cyfrwng iaith darpariaethau gofal plant o fewn awdurdodau lleol. Mae hyn yn hollbwysig gan fod dewisiadau cyfrwng iaith gofal plant yn debygol o ragymadroddi dewis iaith cyfrwng addysg yn y blynyddoedd olynol.<br><br>4. Wrth drafod diffiniadau ysgolion, dylid sicrhau bod amserlen penodol yn cael ei osod ar gyfer ysgolion sy'n cael eu nodi'n 'Ysgol Trawsnewidiol' gan yr Awdurdod Addysg er mwyn gosod targed clir ar gyfer cyflawni'r newid hwn. |

5. Dylid hefyd sicrhau fod y broses asesu'n canolbwyntio ar ddeilliannau pendant o safbwynt egwyddorion dogfennau strategol megis *'Iaith Byw: Iaith Fyw'* sy'n gosod y Gymraeg fel maes polisi llorweddol ar draws pob maes polisi arall (ac nid fel maes polisi i'w gosod mewn bocs ar wahân). Yn hyn o beth, pryderwn fod amwysedd am ddiffiniadau yn ymwneud ag addysg Gymraeg ac addysg ddwyieithog yn gallu arwain rhai, yn eu hanwybodaeth, at feddwl fod gofal ac addysg ddwyieithog yn creu siaradwyr Cymraeg (ble mae'n wybyddus nad yw hynny'n wir).

6. Dylid annog ALLau i gydweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin er mwyn sicrhau dilyniant amlwg o'r cylch i addysg Gymraeg, blaengynllunio ac adnabod patrymau.